

Gadael i'n blodau gwyllt dyfu ar gyfer byd natur

Rydyn ni'n gwneud newid er budd byd natur.

Mae gweithio gyda bywyd gwyllt a gadael i'n planhigion gwyllt dyfu yn helpu nid yn unig y blodau gwyllt a'r ffyngau, ond hefyd y gwenyn, adar a glöynnod byw.

Rydyn ni'n meithrin byd natur drwy:

- Gadael i'n blodau gwyllt gwblhau eu cylch llawn
- Torri a chasglu'r gwair ddwywaith y flwyddyn yn unig
- Gwneud ymrwymiadau rheoli tymor hir ar gyfer byd natur a'r hinsawdd

Mae cynefinoedd llawn blodau gwyllt yn fannau anhygoel sy'n gallu:

- Gwella bioamrywiaeth
- Storio carbon
- Gwella ansawdd aer
- Bod o fudd i'n lles corfforol a meddyliol

Fel rhan o'n dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar flodau gwyllt, rydyn ni'n **bod yn ddoeth am ddiogelwch** ac yn fframio ein hymylon ffyrdd a'n manau gwyrdd gyda thoriad byrrach lle bo angen.

Drwy dorri llai a hwyrach, gallwn adael i blanhigion gwyllt gael y blaen. Felly, eisteddwch yn ôl a gwylwch y blodau'n tyfu.

Rydyn ni'n cymryd rhan ym mudiad Mai Di Dor (a thu hwnt!) gan Plantlife drwy ddilyn canllawiau arfer gorau ar gyfer ymylon ffyrdd a manau gwyrdd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i joinplantlife.org/road-verges-and-greenspaces

